



Contents

1.0	CEFNDIR A PHWRPAS Y PAPUR TESTUN.....	2
2.0	FFRAMWAITH STRATEGOL A PHOLISI CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL.....	3
2.1	CENEDLAETHOL	3
2.2	RHANBARTHOL	7
2.3	LLEOL.....	8
3.0	YR ASESIAID MANNAU AGORED.....	11
3.1	Methodoleg	11
3.2	Categoriâu Mannau Agored	11
3.3	Casglu Data.....	13
3.4	Gosod Safonau	13
3.5	Hygyrchedd Mannau Agored	13
4.0	CANLYNIADAU'R ASESIAID	15

1.0 CEFNDIR A PHWRPAS Y PAPUR TESTUN

- 1.1 Mae caeau chwarae a llefydd agored gwyrdd yn arbennig o bwysig am eu gwerth adloniadol, ac mewn ardaloedd trefol yn enwedig, am eu cyfraniad tuag at gefnogi bioamrywiaeth. Gall cyfleusterau awyr agored fel meysydd chwarae, caeau hamdden, ardaloedd chwarae, llwybrau cerdded a llwybrau beicio a choetiroedd ddarparu buddion sylweddol o ran iechyd a'r amgylchedd i'w cymunedau.
- 1.2 Diben y papur testun hwn yw darparu peth o'r sail tystiolaeth a'r rhesymeg dros warchod, gwella a chynyddu'r ddarpariaeth o fannau agored yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Nod y papur testun yw:
 - Canfod prif negeseuon o strategaethau/polisiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
 - Cyflwyno gwybodaeth waelodlin ynglŷn â mannau agored yn ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn (ardal y CDLI ar y Cyd);
 - Amlinellu materion sydd i ddod yn y dyfodol, y bydd angen rhoi sylw iddynt drwy'r CDLI ar y Cyd.
- 1.3 Caiff mannau agored eu diffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir wedi'i osod fel gardd gyhoeddus, neu dir a ddefnyddir at ddibenion hamdden cyhoeddus, neu dir sy'n dir claddu segur. At ddibenion y papur testun hwn, dylid ystyried bod mannau agored yn cynnwys yr holl fannau agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys nid yn unig tir, ond hefyd ardaloedd o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig am chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, sydd hefyd yn gallu gweithredu fel mwynderau gweledol, ac sydd o bosib yn bwysig i gadwraeth a bioamrywiaeth.
- 1.4 Gan fod y papur hwn yn ymdrin â sefyllfa sy'n newid trwy'r adeg, bydd angen ei ddiweddarau'n gyfnodol, hyd nes yr adeg y bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Arolygydd cyn yr Archwiliad Cyhoeddus. Golyga hyn y bydd y wybodaeth a ddarperir, a'r casgliadau sy'n deillio ohoni, yn cyd-fynd â'i gilydd, gan felly sicrhau bod y CDLI ar y Cyd mor berthnasol a 'chadarn' â phosib.

2.0 FFRAMWAITH STRATEGOL A PHOLISI CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL

2.1 CENEDLAETHOL

Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol

- 2.1.1 Mae'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer ymdrin â mannau agored cyhoeddus a hamdden wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol i'w weld ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 4, 2010), a cheir cyngor ychwanegol yng Nghanllaw Cynllunio (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 16, Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored – Ionawr 2009 (NCT 16).

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 7) Mehefin 2014, Llywodraeth Cymru

- 2.1.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod chwaraeon a hamdden yn cyfrannu at ansawdd ein bywyd ac yn cefnogi datblygiad chwaraeon a hamdden a'r ystod eang o ddiddordebau hamdden sy'n annog gweithgarwch corfforol. Mae PCC yn amlinellu rôl y system gynllunio o ran sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer mannau hamdden i fodloni angen y gymuned am chwaraeon wedi'u trefnu a gweithgareddau anffurfiol. Yn fwy penodol, mae paragraffau 11.1.10 y canllaw yn nodi:

"Dylai'r system gynllunio sicrhau bod digon o adnoddau tir a dŵr yn cael eu neilltuo ar gyfer chwaraeon a hamdden ffurfiol ac anffurfiol, gan ystyried yr angen am fannau ar gyfer hamdden a lefel gyfredol y ddarpariaeth a'r diffygion, yn ogystal ag effaith datblygiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a hamdden ar yr ardal leol ac ar gymunedau lleol."

- 2.1.3 Caiff awdurdodau cynllunio eu hannog hefyd i sicrhau na chaiff mannau agored presennol eu colli, yn enwedig pan adnabuwyd bod prinder ohonynt. Mae paragraff 11.1.11 PCC yn nodi:

"Dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys parciau sy'n hynod werthfawr o ran hamdden neu amwynder, gael eu diogelu rhag cael eu datblygu. Mae hynny'n arbennig o berthnasol mewn ardaloedd trefol, lle mae mannau o'r fath yn cyflawni sawl diben. Nid yn unig y maent yn cyfoethogi ansawdd bywyd, ond maent hefyd yn cyfrannu at fioamrywiaeth, cadwraeth natur a thirwedd, ansawdd yr aer ac maent yn diogelu dŵr daear."

- 2.1.4 Mae PCC yn nodi y dylid diogelu pob cae chwarae, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, rhag datblygiadau oni bai:

- Y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau trwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;
- Y darperir darpariaeth amgen o'r un budd i'r gymuned; neu
- Bod gormodedd o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.

- 2.1.5 Mae PCC yn credu y dylai Awdurdodau Lleol geisio diogelu a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy fel adnodd amgylcheddol a hamdden. Dylent hefyd hyrwyddo'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, llwybrau troed hirbell, llwybrau ceffyl, camlesi a'r defnydd o ddyfrffyrdd mewndirol a rheilffyrdd segur fel llwybrau gleision ar gyfer gweithgareddau hamdden cynaliadwy.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: “Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored” – Ionawr 2009

- 2.1.6 Mae NCT 16 yn darparu cyngor i gymunedau, datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Mae'n nodi mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion a nodir yn PCC yw cynnal asesiadau lleol o angen ac archwiliadau ar y ddarpariaeth bresennol. Mae'r asesiadau hyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio Asesiad Mannau Agored, ac ymhlith pethau eraill, dylid ei ddefnyddio i gyfrannu at baratoi, monitro ac adolygu polisïau'r CDLI.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 9: “Dylunio” – 2009

- 2.1.7 Mae'n pwysleisio'r angen i ymgorffori manau hamdden ac adloniant, a llwybrau mynediad ar gyfer cerdded a beicio, mewn cynigion datblygu o'r cychwyn cyntaf, er mwyn creu naws am le.

Fframwaith Strategol Cenedlaethol***Cymru'n Un – Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2007***

- 2.1.8 Mae'r ddogfen yn egluro beth yw strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu i gyflwyno newid yng Nghymru. Mae'n cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud digon o weithgarwch corfforol i'w hiechyd elwa ohono. Mae'n derbyn fod gweithgarwch corfforol yn fuddiol i iechyd, ac yn darparu ar gyfer creu llwybr arfordirol Cymru gyfan, yn annog chwaraeon, gweithgarwch corfforol (yn enwedig beicio a cherdded) a mwynhau'r amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn hyrwyddo cadw caeau chwarae ysgolion er mwyn datblygu cyfleoedd i ysgolion a cholegau weithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i fuddsoddi mewn hyfforddiant chwaraeon.

Asesiad Digonolrwydd Chwarae – Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2014

- 2.1.9 Mae Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardal.
- 2.1.10 Mae “Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae” yn Ganllaw Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu a sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardal. Caiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru i roi manylion ynghylch y dyletswydd ar Awdurdodau Lleol dan adran 11, Cyfleoedd i Chwarae, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Daeth adran hon y Mesur i rym yn llawn ar 1 Gorffennaf 2014.
- 2.1.11 “Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae” yw'r Canllaw Statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gadw ato er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i asesu a sicrhau digon o gyfleoedd i chwarae.


Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru, Diweddariad 2008, Llywodraeth Cymru, 2008

- 2.1.12 Cafodd Cynllun Gofodol Cymru – Pobl, Lleoedd, Dyfodol – ei fabwysiadu'n wreiddiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2004. Mae

agenda eang 20 mlynedd ynghyd â rôl, diben ac egwyddorion Cynllun Gofodol Cymru fel a ganlyn:

- Sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud gan ystyried eu heffaith y tu hwnt i ffiniau sectoraidd neu weinyddol a bod gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy yn llywio popeth a wnawn
- Gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol
- Dylanwadu ar ble caiff arian ei wario gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddeall rolau llefydd a'r rhyngweithio rhyngddynt
- Darparu sail tystiolaeth glir er mwyn i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddatblygu polisiau a chamau gweithredu

2.1.13 Mae gweledigaeth y Cynllun Gofodol yn nodi y *"byddwn yn cynnal ein cymunedau trwy fynd i'r afael â'r heriau a ddaw trwy newidiadau poblogaeth ac economaidd. Byddwn yn tyfu mewn ffyrdd fydd yn cynyddu pa mor gystadleuol yw Cymru ac yn cynorthwyo ardaloedd llai breintiedig i ddod yn fwy llewyrchus, ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol. Byddwn yn cyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn gwarchod ein hunaniaeth nodedig."*



Ffigwr 1 – Diagram Cynllun Gofodol Cymru, LIC, 2008

2.1.14 Mae'r diweddariad yn golygu bod Cynllun Gofodol Cymru 2004 yn cyd-fynd ag agenda 'Cymru'n Un' ac yn rhoi statws i'r maes gwaith a gyflawnwyd ers paratoi'r cynllun gwreiddiol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd i ansawdd bywyd, a bod gwarchod ac adfywio'r amgylchedd yn hanfodol i iechyd a lles. Mae'r diweddariad yn cydnabod bod rhaid rhoi sylw i newid hinsawdd os ydym am osgoi canlyniadau, a thrwy wneud hyn mae cyfle i

aiffeddwl am y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio, gan annog mwy o gerdded a beicio fel rhan o fywyd pob dydd, darparu mannau agored diogel a glân lle mae mwy o gyfleoedd i fwynhau bywyd gwyllt, a gwella'r ffordd rydym yn rheoli ansawdd, gwastraff, priddoedd a dŵr.

Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, Ionawr 2005

2.1.15 Mae'r ddogfen yn cyflwyno'r strategaeth hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol am yr ugain mlynedd nesaf. Diben y strategaeth yw cyflawni "*Cymru egniol, iach, gynhwysol, lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden yn rhoi llwyfan cyffredin ar gyfer cymryd rhan, cael hwyl a llwyddo, sy'n clymu ynghyd gymunedau a'r genedl, a lle mae amgylchedd eithriadol Cymru yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy i wella ein hyder ynom ein hunain a'n lle yn y byd.*"

2.1.16 Mae gan Dringo'n Uwch oblygiadau gofodol i gynllunio defnydd tir, yn genedlaethol ac yn lleol, ac mae'n cynnwys targedau i'w cyrraedd erbyn 2025:

- Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%;
- Bydd gan 95% o bobl Cymru lwybr troed neu lwybr beicio o fewn taith gerdded 10 munud;
- Ni ddylai unrhyw un fyw mwy na thaith gerdded o chwe munud (300 metr) o'r man gwyrdd naturiol agosaf;
- Bydd gan bob gweithiwr sector cyhoeddus a 75% o'r holl weithwyr eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu man gwaith, neu o fewn taith gerdded 10 munud ato.

Polisi Chwarae, Hydref 2002 a Chynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae, Chwefror 2006, y ddau gan Lywodraeth Cymru

2.1.17 Mae LIC yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol plant. Nod y polisi hwn yw creu amgylchedd sy'n meithrin chwarae i blant ac sy'n ategu strategaeth genedlaethol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion chwarae. Mae hefyd yn cydnabod y gall darparu cyfleoedd am weithgarwch corfforol helpu i fynd i'r afael â materion iechyd a lles ehangach, yn arbennig gordewdra, a bod plant yn fwy tebygol o ddefnyddio maes chwarae os yw'n agosach at eu cartref.

Strategaeth Amgylcheddol Cymru, Llywodraeth Cymru, 2006

2.1.18 Mae'r strategaeth yn datgan y dylai bob cymuned fod ag amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel, sydd wedi'i gynllunio'n dda ac yn cael ei gynnal a'i gadw, sy'n darparu mynediad i fannau gwyrdd ac ardaloedd ar gyfer hamdden, ac yn cefnogi bioamrywiaeth. Mae'n cydnabod y gall amgylcheddau o ansawdd gwael gydag adeiladau a mannau cyhoeddus mewn cyflwr gwael, a diffyg parciau a mannau gwyrdd gael effaith andwyol ar ansawdd ein bywyd, iechyd a lles.

Canllaw i Awdurdodau Lleol ar asesu cyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd a sicrhau bod digon ohonynt – Dogfen Ymgynghorol, Ebrill 2012, Llywodraeth Cymru

- 2.1.19 Paratowyd y canllaw drafft hwn gan Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu digonolrwydd y cyfleoedd i blant chwarae yn eu hardal yn unol â'r rheoliadau.

Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

- 2.1.20 Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn rhan unigryw o'n treftadaeth. Yn draddodiadol, câi nifer o'r llwybrau hyn eu defnyddio gan ffermwyr, chwarelwyr a mwyngloddwyr tra'r oedd ceffylau neu borthmyn yn teithio ar hyd rhai eraill. Mae llwybrau a thraciau syml yn parhau'n bwysig i ni heddiw, er yn aml am resymau gwahanol.
- 2.1.21 Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus heddiw yn bwysig iawn i ymwelwyr i gefn gwlad, gan fod nifer ohonynt yn defnyddio hawliau tramwy trwy gydol eu hymweliad, ac felly'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi trwy'r arian y maent yn ei wario mewn siopau a busnesau lleol. Mae'n rhan greiddiol o'r isadeiledd trafniadaeth lleol, yn darparu ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio i'r ysgol, i'r gwaith, ac i siopau a gwasanaethau lleol. Mae defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus hefyd yn rhoi cyfleoedd gwych i bobl fod yn fwy actif. Gall hyn effeithio'n bositif ar iechyd pobl, a gall gyfrannu at deimlo'n dda ac at hapusrwydd.
- 2.1.22 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd lleol i gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) ar gyfer eu hardal gyfan. Bydd y ROWIP yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad dros y deng mlynedd nesaf. Wrth ffurfio eu Cynllun, disgwylir i awdurdodau asesu:-
- I ba raddau mae hawliau tramwy lleol yn cwrdd ag anghenion presennol y cyhoedd, a'u anghenion tebygol yn y dyfodol.
 - Y cyfleoedd hamdden a ddarperir gan hawliau tramwy lleol a'r cyfleoedd i bawb fwynhau'r ardal.
 - Hygyrchedd hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu bobl sydd â nam ar eu golwg, ac eraill a chanddynt broblemau symudedd.
- 2.1.22 Dylai'r cynllun hefyd gynnwys datganiad o'r camau gweithredu y mae'r awdurdodau priffyrdd yn bwriadu eu cymryd er mwyn sicrhau a rheoli rhwydwaith hawliau tramwy gwell.

2.2 RHANBARTHOL

Archwiliad o'r Ddarpariaeth Chwarae: Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, Fforwm Chwarae Gogledd-orllewin Cymru, 2009

- 2.2.1 Mae'r adroddiad yn amlygu cyflwr presennol y ddarpariaeth chwarae yn y rhanbarth (Conwy, Ynys Môn a Gwynedd). Yng nghynnwys yr adroddiad mae'n amlwg fod y rhanbarth mewn cyflwr o esgeulustod, tloedi ac amddifadedd cyn belled ag y mae darpariaeth chwarae i bawb dan sylw.
- 2.2.2 Ers cyhoeddi'r archwiliad mae cynnydd wedi bod yn y rhanbarth yn yr holl Awdurdodau Lleol o ran bod dau Swyddog Chwarae Lleol wedi cael eu cyflogi, ac mae'n edrych yn debyg y bydd trydydd swyddog yn cael ei gyflogi.

Mae Gwynedd wedi mabwysiadu Strategaeth Chwarae, ac mae Conwy ac Ynys Môn yn y broses o ymgynghori ar Strategaeth Chwarae.

Creu Gwynedd a Môn Egnïol: Ychydig Bach Mwy Bob Dydd, Gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu 2011-2014

- 2.2.3 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynllun gweithredu i annog mwy o weithgarwch corfforol yng Ngwynedd a Môn.
- 2.2.4 Mae'r ddogfen yn cynnwys naw blaenoriaeth i'w gweithredu, y cytunwyd arnynt gyda budd-ddeiliaid:
1. Gwella gwybodaeth a sgiliau i gynyddu'r defnydd a wneir o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig i gael cynifer o bobl â phosib yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
 2. Adnabod y grwpiau lleiaf actif a datblygu darpariaeth a chefnogaeth benodol ar eu cyfer i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ymysg oedolion, teuluoedd, plant a phobl ifanc.
 3. Sicrhau cyfle cyfartal i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.
 4. Cael plant a phobl ifanc i ymddiddori mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon am oes trwy hybu cyfleoedd i deuluoedd, plant a phobl ifanc.
 5. Manteisio ar ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol i godi proffil chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y gymuned.
 6. Datblygu'r gweithlu.
 7. Cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan am oes mewn chwaraeon cystadleuol i bawb.
 8. Cryfhau cysylltiadau chwaraeon rhwng rhaglenni generig, cyrff llywodraethol a chlybiau cymunedol.
 9. Gwneud y defnydd gorau o'r awyrgylch naturiol, cynnal a gwella'r isadeiledd cyfredol i ddatblygu cyfleoedd ar garreg y drws a sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol.

2.3 LLEOL

1) Gwynedd

Strategaeth Gymunedol Gwynedd ar y Cyd 2008 – 2012

- 2.3.1 Mae datganiad 'Gweledigaeth' y Strategaeth fel a ganlyn:

“Erbyn 2021, ein gweledigaeth yw y bydd Gwynedd wedi bachu ar yr her a'r cyfleoedd mewn byd sy'n newid i fod yn gymuned fwy bywiog, llewyrchus, agored a chydlynol sy'n hyrwyddo ac yn ymfalchïo yn ei hasedau diwylliannol a naturiol unigryw ac sy'n cyfrannu'n bositif tuag at fyd mwy cynaliadwy.”

- 2.3.2 Mae'r ddogfen yn amlinellu nifer o Egwyddorion y Strategaeth Gymunedol, gan gynnwys un ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r 'egwyddor datblygu'n gynaliadwy' yn datgan fod Gwynedd ar y Cyd yn ymroddedig i'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy.

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009

- 2.3.3 Mae'r cynllun yn cydnabod bod y prif gyfleusterau hamdden wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, gyda chyfleusterau hamdden bwrdeistrefol wedi'u lleoli yn Mangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Abermaw, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Bethesda a Phen-y-groes. Mae hefyd yn cydnabod fod natur wasgaredig trefi a phentrefi'r ardal yn golygu nad yw'n hawdd bodloni anghenion hamdden pawb. Mae polisiâu CH42 – CH48 yn darparu'r canllaw ar gynllunio defnydd tir yng nghyswllt mannau agored, a datblygu chwaraeon a hamdden.

Canllaw Cynllunio Atodol – Datblygiadau tai a llecynnau agored o werth adloniadol, Cyngor Gwynedd, Mawrth 2009

- 2.3.4 Diben y CCA yw sefydlu'r mecanweithiau cynllunio perthnasol fydd yn hwyluso'r dasg o ddarparu a chynnal lefel briodol o fannau agored o werth adloniadol (OSRV) mewn perthynas â datblygiadau tai newydd sy'n cynnwys deg neu fwy o unedau preswyl.
- 2.3.5 Mae'r canllaw hefyd yn egluro'r dull ar gyfer negodi cyfraniadau ariannol sy'n deillio o ddatblygiadau newydd, y gellir eu cyfeirio'n benodol tuag at ddarparu, gwella a cynnal mannau agored a mannau i chwarae.
- 2.3.6 Mae'r CCA yn cynnwys gwybodaeth ar yr ymarfer gorau mewn perthynas â darparu mannau agored o werth adloniadol ac yn rhoi manylion am y math o offer a gwaith plannu gaiff eu hystyried yn dderbyniol gan yr awdurdod.
- 2.3.7 Defnyddir y safonau FIT i gyfrifo lefel y llecynnau agored o werth adloniadol ar gyfer datblygiadau newydd.

2) Ynys Môn***Cynllun Integridig Sengl: Ein Hynys Ein Dyfodol 2013-2025, Cyngor Sir Ynys Môn***

- 2.3.7 Nod y Cynllun hwn yw gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau lleol trwy wella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y 12 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn gosod y weledigaeth am y 12 mlynedd ac yn sefydlu'r blaenoriaethau am y bedair blynedd nesaf er mwyn delio â'r heriau mawr sy'n ein hwynebu. Bydd y cynlluniau gweithredu a geir o dan bob un o'r deilliannau strategol yn cael eu mesur a'u hadolygu i wneud yn siŵr ein bod yn blaenoriaethu'r pethau iawn sy'n gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Cynllun Lleol Ynys Môn (CLIYM) 1996

- 2.3.8 Nod cyffredinol Cynllun Lleol Ynys Môn yw diogelu a chryfhau cymunedau trwy greu swyddi. Gellir cryfhau cymunedau hefyd trwy gadw a darparu cyfleusterau megis neuaddau cymuned, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a mannau agored.
- 2.3.9 Mae polisiâu 14 ac 15 CLIYM yn cefnogi cadw a chreu cyfleusterau newydd ar gyfer chwaraeon a hamdden. Mae polisi 16 yn datgan y "Gwrthodir cynigion datblygu fyddai'n arwain at gollu mannau agored cyhoeddus neu

breifat, pan fo pwysigrwydd i'r mannau agored hynny o safbwynt hamdden, mwynderau a bywyd gwyllt."

Cynllun Datblygu Unedol wedi'i Stopio (2005)

2.3.10 Mae'r CDU yn nodi bod gallu unrhyw gymuned i gynnal a chadw isadeiledd deniadol i bobl leol yn amlwg yn safon ei chyfleusterau chwaraeon a hamdden. Mae polisiau TO11 a TO12 yn cefnogi creu cyfleusterau chwaraeon a hamdden newydd ar yr ynys, yn ogystal â chadw rhai sy'n bodoli eisoes.

2.3.11 O fewn y CDU mae mannau amwynder yn golygu ardaloedd i blant chwarae, meysydd mewn pentrefi, tir comin, ardaloedd gwyrdd mewn aneddiadau, neu hyd yn oed ardaloedd bychain dros ben ar ôl cwblhau datblygiad. Mae'r ardaloedd amwynder presennol wedi'u hadnabod yn y mapiau CDU ar gyfer y prif ganolfannau, a chanolfannau eilaidd a phentrefi. Mae polisi TO14 yn datgan y "*Caiff lleoedd amwynder sy'n cyfrannu at y gymuned o ran y mwynder adloniadol neu weledol eu diogelu rhag datblygiad.*"

Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn 2009 -2013

2.3.12 Nod y prosiect yw datblygu cyfleusterau ar y tir ac ar y môr i gynyddu buddion ac effeithiau economaidd arfordir Ynys Môn. Adnabuwyd 13 o weithgareddau i'w gweithredu yn ystod cyfnod pedair blynedd y prosiect. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwelliannau i lithrfeydd i gynyddu mynediad i'r môr, ar y cyd â chyfres o welliannau amgylcheddol i wella ansawdd a swyddogaeth cyffredinol cyfleusterau ac isadeiledd sy'n bodoli eisoes.

3.0 YR ASESIAD MANNAU AGORED

3.1 Methodoleg

- 3.1.1 Mae'r Asesiad Mannau Agored hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr 14 anheddiad yr adnabuwyd yw'r Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Eilaidd yng Nghynllun Datblygu Unedol wedi'i stopio Ynys Môn (2005) a'r 13 anheddiad yr adnabuwyd yw'r Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Trefol a Chanolfannau Lleol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) fel y dengys y tabl isod. Nid yw'r asesiad wedi cyffwrdd ar yr aneddiadau llai a nodir yn y cynlluniau datblygu oherwydd ei bod yn anodd cymhwyso safonau darpariaeth mewn modd ystyrlon mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn isel.

Canolfan Isranbarthol	
<u>Gwynedd:</u>	
Bangor	
Canolfannau Gwasanaeth Trefol	
<u>Gwynedd:</u>	<u>Ynys Môn:</u>
Blaenau Ffestiniog Caernarfon Porthmadog Pwllheli	Amlwch Caergybi Llangefni
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	
<u>Gwynedd:</u>	<u>Ynys Môn:</u>
Abermaw Abersoch Bethesda Criccieth Llanberis Llanrug Nefyn Penrhyndeudraeth Penygroes Tywyn	Biwmares Benllech Bodedern Cemaes Gaerwen Llanfairpwll Porthaethwy Pentraeth Rhosneigr Y Fali

Tabl 1: Aneddiadau a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad

3.2 Categoriâu Mannau Agored

- 3.2.1 Mae cyfarwyddyd a geir yn NCT 16 yn datgan y dylai'r Asesiad Mannau Agored roi sylw i bob ffurf o ddarpariaeth mannau agored. Mae Atodiad 2 NCT 16 yn darparu 'Teipoleg Mannau Agored' fel sail defnyddiol ar gyfer paratoi Asesiadau Mannau Agored a pholisïau mewn cynllun datblygu¹. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i'r teipoleg wrth asesu'r angen a'r

¹ Pan fo mwy nac un defnydd i fannau agored, caiff yr ardaloedd eu categorio yn ôl prif ddefnydd yr ardal dan sylw.

ddarpariaeth bresennol, ac wrth bennu gofynion y dyfodol o ran mannau agored.

- i. **Parciau a gerddi cyhoeddus** – gan gynnwys parciau trefol, parciau gwledig a gerddi ffurfiol;
 - ii. **Mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol** – gan gynnwys coetir, coedwigoedd trefol, prysg, glaswelltir a thir mynediad agored (e.e. mynydd-dir, rhostir, gweundir, twyndir, tir comin a gweirgloddiau), gwlypdir, tir gwastraff a thir diffaith agored a mannau creigiog (e.e. clogwyni, chwareli a chloddfeydd), a thir arfordirol;
 - iii. **Coridorau gwyrdd** – gan gynnwys glannau afonydd a chamlesi, llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffyl, tir rheilffordd segur a hawliau tramwy; gall y rhain gysylltu gwahanol fannau a o fewn a rhwng ardaloedd trefol. Gallant hefyd ffurfio rhan o rwydwaith sy'n cysylltu ardaloedd trefol, neu'n eu cysylltu â chefn gwlad o'u hamgylch;
 - iv. **Cyfleusterau chwaraeon awyr agored** (gydag arwynebau naturiol neu artiffisial, mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat) – gan gynnwys cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, lleiniau chwaraeon, cyrsiau golff, traciau athletau, meysydd chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, a safleoedd chwaraeon awyr agored eraill. Y diffiniad cyfredol o lain chwaraeon yw maes chwarae sy'n fwy na 0.4 hectar o ran maint ac sydd wedi ei farcio ar gyfer gemau tîm yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
 - v. **Mannau gwyrdd amwynder** (yn fwyaf cyffredin, ond nid yn ddieithriad, mewn ardaloedd tai) – gan gynnwys mannau hamdden anffurfiol (preifat neu'n agored i'r cyhoedd), lleiniau ar ymyl ffordd, mannau gwyrdd mewn ac o amgylch tai a safleoedd eraill e.e. ysbytai, ysgolion a cholegau, safleoedd diwydiannol a busnes, gerddi a thiroedd domestig, a meysydd pentref;
 - vi. **Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc** – gan gynnwys mannau chwarae mannau ar gyfer chwarae ar olwynion, gan gynnwys sglefr-fyrddio, mannau cicio pêl yn yr awyr agored a mannau llai ffurfiol eraill (e.e. mannau 'loetran', llochesau i bobl yn eu harddegau);
 - vii. **Rhandiroedd garddio, gerddi cymunedol, a ffermydd dinesig (trefol)** – diffinnir rhandir statudol fel rhandir nad yw ei arwynebedd yn fwy na 40 stang (1,000 metr sgwâr);
 - viii. **Mynwentydd a thir o amgylch eglwysi;**
 - ix. **Ardaloedd hygyrch o gefn gwlad ar ymylon trefi** - sydd yn union ar ffin ardal drefol neu wedi eu cysylltu ag ardal drefol;
 - x. **Mannau agored dinesig** – gan gynnwys sgwariau dinesig a sgwariau marchnad, promenadau a mannau eraill sydd ag arwyneb caled yn bennaf, a gynlluniwyd ar gyfer cerddwyr. Gall y mannau hyn gynnwys rhannau planedig a choed;
 - xi. **Dŵr** – gan gynnwys arwynebeddau awyr agored o ddŵr llanwol a dŵr croyw, pyllau, afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr, dociau a harbyrau.
- 3.2.2 Roedd yr holl fathau o fannau agored a nodir yn y NCT yn rhan o'r asesiad, ac at ddibenion y papur hwn, maent wedi eu grwpio i bump categori o fannau agored:

Categori	Disgrifiad
Man Hamdden Ffurfiol	Ardaloedd sydd wedi eu marcio a'u gosod ar gyfer hamdden a chwaraeon wedi'u trefnu. Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl gyfleusterau chwaraeon awyr agored.
Man Hamdden Anffurfiol	Ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer chwarae anffurfiol a hamdden, gan blant yn bennaf.

Mannau Chwarae gydag Offer	Ardaloedd sy'n cynnwys offer chwarae sefydlog i'w defnyddio gan blant.
Mannau Agored Amwynder	Categori eang sy'n cynnwys manau megis parciau a gerddi addurniadol, parciau gwledig, mynwentydd, cyrff dŵr a ddefnyddir ar gyfer hamdden, rhandiroedd, lleiniau ar ymyl ffyrdd, ardaloedd gwyrdd/ardaloedd o brysg mewn stadau tai, ac ardaloedd amwynder mawr megis coetiroedd a chyrsgiau golff.
Tir Addysgol	Ardaloedd oddi mewn i diroedd ysgolion a ddefnyddir ar gyfer chwarae a hamdden gan yr ysgol yn bennaf.

Tabl 2: Categoriâu Mannau Agored

3.3 Casglu Data

- 3.3.1 Defnyddiwyd arolwg desg yn defnyddio System Wybodaeth Ddaeryddol (GIS) yr Awdurdod a lluniau o'r awyr i adnabod y Mannau Agored uchod. Defnyddiwyd gwybodaeth leol hefyd, a phan oedd angen cynhaliwyd ymweliadau safle.
- 3.3.2 Cynhyrchwyd mapiau yn dangos dosbarthiad gofodol y manau agored yn yr aneddeleodd a ddewiswyd (gweler pennod ?) a chrynhowyd canlyniadau'r asesiad ar ffurf tabl (gweler pennod ?).

3.4 Gosod Safonau

- 3.4.1 Mae Fields in Trust (FIT), sef y National Playing Fields Association gynt, wedi paratoi 'Safonau Meincnod' ar gyfer chwaraeon awyr agored fydd yn disodli'r 'Safon Chwe Erw', ac maent yn gymorth i awdurdodau ddatblygu safonau lleol ar gyfer y ddarpariaeth, ac i eraill sydd gan ddiddordeb mewn darparu a diogelu manau ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae.
- 3.4.2 Er mwyn ffurfio gofynion o ran manau agored mewn datblygiadau yn y dyfodol, mae'r asesiadau yn defnyddio'r safonau meincnod a gynigir gan Fields in Trust (FIT) sy'n cynnwys lleiafswm o 2.4 hectar i bob 1000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys 1.6ha o gyfleusterau chwaraeon awyr agored (dylai 1.2ha o hyn fod yn feysydd chwarae ffurfiol) a 0.8ha o ofod chwarae i blant (dylai 0.25ha o hyn fod yn fannau chwarae gydag offer).
- 3.4.3 At ddibenion yr asesiad hwn, mae poblogaeth pob anheddiad yn seiliedig ar maint aelwydydd yn ôl Cyfrifiad 2011.
- 3.4.4 Fodd bynnag, nid yw'r safonau FIT yn ymgorffori pob math o fannau agored. Nid yw NCT 16 yn rhestru safonau nifer/maint ar gyfer y mathau eraill o fannau agored y mae'r astudiaeth hon yn ymdrin â hwy, ac nid yw Cyngor Gwynedd na Chyngor Môn wedi gosod neu gymhwyso safonau o'r fath ar adeg ysgrifennu'r papur hwn. Byddant yn cael eu mapio pan fo raid i ddangos y cyfleoedd sydd gan gymuned i gael mynediad at amrywiaeth o Fannau Agored.

3.5 Hygyrchedd Mannau Agored

- 3.5.1 Mae'r safonau FIT yn cynnwys hygyrchedd manau agored sydd fel a ganlyn:

- Taith 20 munud o lawnt fowlio a chwrt tennis awyr agored
- Taith 45 munud o drac athletau synthetig
- 1.2km o faes chwaraeon (dros 0.4ha ac wedi'i farcio ar gyfer gemau).

3.5.2 Mae pellteroedd hygyrchedd gwahanol ar gyfer ardaloedd chwarae yn dibynnu ar y math o ardal chwarae a p'un a gaiff y pellteroedd eu mesur fel y pellter cerdded neu bellteroedd mewn llinell syth, fel y dengys y tabl isod.

Math y Gofod	Pellter Cerdded (m)	Pellter Llinell Syth (m)
Mannau lleol ar gyfer chwarae neu fannau 'carreg y drws' ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol	100	60
Mannau chwarae lleol gydag offer, neu a dirluniwyd, ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol	400	240
Mannau chwarae gydag offer yn y gymdogaeth ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc	1000	600

Tabl 3: Hygyrchedd Mannau Agored

4.0 CANLYNIADAU'R ASESIAD

- 4.1.1 Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn crynhoi lefelau bras y mannau agored yn yr aneddiadau. Nid oes safonau hygrychedd na safonau nifer/maint wedi'u rhestru yn NCT 16 ar gyfer mathau eraill o fannau agored a archwiliwyd. Fodd bynnag, rydym wedi nodi eu bodolaeth ar y mapiau er mwyn dangos yr amrywiaeth o fannau agored a chyfleoedd ar gyfer hamdden sydd ar gael yn yr aneddiadau a aseswyd.

Anheddle	Poblogaeth	Nifer o Llecynnau Agored	Cyfan-sw m llecynnau agored (ha)	Canllaw 2.4 hecter 'Fields in Trust'		1.6ha Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored		1.2ha Caeau Chwarae		0.8ha Llecyn Agored i Blant Chwarae		0.25ha Llecyn Chwarae gyda chyfarpar	
				Targed	Gwir	Targed	Gwir	Targed	Gwir	Targed	Gwir	Targed	Gwir
Gwynedd													
Bangor	16978	60	134.60	40.75	44.99	27.16	24.56	20.37	15.29	13.58	20.43	4.24	1.37
Blaenau Ffestiniog	4360	26	28.83	10.46	14.39	6.98	10.37	5.23	5.69	3.49	4.02	1.09	0.47
Caernarfon	9869	37	54.58	23.69	22.25	15.79	4.64	11.84	2.87	7.90	17.61	2.47	3.49
Porthmadog	2984	15	40.73	7.16	23.18	4.77	16.66	3.58	16.16	2.39	2.10	0.75	1.03
Pwllheli	4337	16	131.19	10.41	7.91	6.94	0	5.20	0	3.46	7.981	1.08	2.39
Barmouth	2584	9	6.62	6.20	2.91	4.13	2.12	3.10	1.35	2.07	0.79	0.65	0
Bethesda	3970	18	24.56	9.53	10.63	6.35	6.19	4.76	6.03	3.18	4.44	0.99	0.40
Criccieth	2016	13	12.78	4.84	2.52	3.23	2.12	2.41	0	1.61	0.4	0.50	0.05
Llanberis	1775	8	13.81	4.26	13.81	2.84	1.01	2.13	0	1.42	0.77	0.44	0
Nefyn	1505	4	1.85	3.61	0.77	2.41	0	1.81	0	1.20	0.77	0.38	0.33
Penrhyndeudraeth	1656	11	6.66	3.97	2.04	2.65	1.83	1.99	1.72	1.32	0.21	0.41	0.08
Penygroes	1841	4	6.60	4.42	6.60	2.95	0	2.21	0	1.47	6.61	0.46	0.13
Tywyn	3580	17	16.12	8.59	10.09	5.73	7.16	4.30	7.03	2.86	2.26	0.90	0.79
Anglesey													
Amlwch	3416	13	21.62	8.20	11.85	5.47	8.64	4.10	6.9	2.73	3.21	0.85	0.27
Holyhead	12318	29	114.57	29.56	29.62	19.71	12.34	14.78	11.26	9.85	17.28	3.08	2.95
Llangefni	5104	19	65.80	12.25	17.96	8.17	12.29	6.12	8.00	4.08	9.96	1.28	1.69
Beaumaris	1760	13	9.41	4.22	4.73	2.82	0.14	2.11	0.14	1.41	4.59	0.44	0.25
Benllech	2304	5	5.14	5.53	2.82	3.69	2.07	2.76	2.07	1.84	0.75	0.58	0.1
Cemaes	1231	7	6.04	2.95	3.42	1.97	0.73	1.48	0.73	0.98	1.99	0.31	0.62
Gaerwen	1219	5	3.05	2.93	2.62	1.95	1.23	1.46	1.23	0.98	1.39	0.30	0.48
Lianfairpwll	3086	10	5.07	7.41	4.64	4.94	2.44	3.70	1.09	2.47	2.2	0.77	0.07
Menai Bridge	3485	19	21.03	8.36	12.17	5.58	4.36	4.18	3.69	2.79	7.81	0.87	0.25
Rhosneigr	1656	3	73.22	3.97	0.68	2.65	0.25	1.99	0	1.32	0.43	0.41	0
Valley	2258	6	8.60	5.42	3.28	3.61	1.74	2.71	1.74	1.81	0.86	0.56	0.15

